



Swyddfa'r
Gwarcheidwad
Cyhoeddus

Re ACC and Others: Canllawiau ar gyfer dirprwyon eiddo a materion

Crynodeb

Mae'r canllawiau hyn yn nodi safbwynt y Gwarcheidwad Cyhoeddus ar y dyfarniad Re ACC a'r camau y mae OPG yn disgwyl i ddirprwyon eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth.

Cyd-destun

Traddodwyd dyfarniad Re ACC and Others (Re ACC and Others [2020] EWCOP 9 [Re ACC and Others](#)) gan Uwch Farnwr y Llys Gwarchod ar 27 Chwefror 2020. Mae'r dyfarniad yn nodi safbwyntiau ar wahanol faterion gan gynnwys yr awdurdod sydd ei angen ar ddirprwyon i gael gwasanaethau cyfreithiol a sut y dylid rheoli gwrthdaro o ran buddiannau. Mae'r dyfarniad yn berthnasol i unrhyw ddirprwy a benodir gan y llys eiddo a materion.

Mae'r canllawiau canlynol yn amlinellu safbwynt OPG mewn perthynas â'r dyfarniad ac nid yw'n gyngor cyfreithiol. Dylid ceisio cyngor cyfreithiol arbenigol mewn perthynas ag amgylchiadau unigol. Darparodd yr uwch farnwr grynodedb defnyddiol o'r prif faterion a gwmpesir yn Re ACC and Others mewn atodiad i'r dyfarniad.

Awdurdod cyffredinol

Mae'r dyfarniad yn nodi'r sefyllfa ar awdurdod cyffredinol dirprwy eiddo a materion sy'n cael ei ddiffinio fel un sy'n cwmparu'r tasgau cyffredin o ddydd i ddydd sy'n ofynnol i weinyddu ystad P yn effeithiol. Rhaid i ddirprwyon ystyried wrth wneud penderfyniadau eiddo ac ariannol ar ran P a yw'r weithred dan sylw yn dod o fewn cwmpas awdurdod cyffredinol neu a oes angen awdurdodiad penodol gan y llys. Mae'r dirprwy yn gweithredu ar ei risg bersonol ei hun os yw'n gweithredu y tu allan i'w awdurdod.

Mae'r templed gorchymyn dirprwyaeth eiddo a materion safonol yn cynnwys adran o'r pennawd "Awdurdod dirprwy" sy'n nodi awdurdod y dirprwy. Mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth safonol ganlynol:

"(a) the court confers general authority on the deputy to take possession or control of the property and affairs of [P] and to exercise the same powers of management and investment, including [selling and] letting property, as he has as beneficial owner, subject to the terms and conditions set out in this order."

Mae'r ail adran o'r templed safonol yn rhestru cymalau ychwanegol y gellir eu cynnwys i ymestyn awdurdod y dirprwy. Gall y rhain gynnwys y canlynol:

- a. prynu eiddo rhydd-ddaliad neu lesddaliad
- b. gwerthu, prydlesu neu godi tâl eiddo rhydd-ddaliad neu brydles
- c. penodi rheolwr buddsoddi
- d. defnyddio cronfeydd P i ddarparu ar gyfer eraill
- e. gwneud rhoddion i elusen neu ar achlysuron arferol
- f. cael grant cynrychiolaeth; a
- g. gweithredu neu lofnodi gweithredoedd neu ddogfennau

Nid oes gan y dirprwy awdurdod i gyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau uchod ar ran P oni bai bod y cymal perthnasol wedi'i gynnwys yn y gorchymyn. Er enghraifft, rhaid i'r dirprwy beidio â gwerthu na phrynu eiddo ar ran P os nad yw'r awdurdod i wneud hynny

wedi'i gynnwys yn y gorchymyn dirprwy.

Gall y dirprwy ymgymryd â thasgau cyfreithiol di-ddadleuol cyffredin sy'n ategol i'r awdurdod a roddir gan y gorchymyn gan gynnwys cael cyngor cyfreithiol. Er enghraifft:

- a. awdurdod i brynu neu werthu eiddo yn cynnwys trawsgludo
- b. awdurdod i osod eiddo yn cynnwys delio â phrydlesi neu gytundebau tenantiaeth
- c. awdurdod i gynnal busnes P yn cynnwys delio â chontractau cyflogaeth

Mae awdurdod cyffredinol hefyd yn cynnwys:

- a. paratoi ffurflen dreth flynyddol, ac felly cael cyngor ynghylch cwblhau'r ffurflen
- b. cyflawni cyfrifoldebau ariannol P o dan denantiaeth, ac felly cael cyngor ynghylch rhwymedigaethau o dan y denantiaeth
- c. cymhwyso cronfeydd P er mwyn sicrhau bod cost ei drefniadau gofal yn cael eu talu, ac felly delio â chontractau cyflogaeth gofawyr a gyflogir yn uniongyrchol

Awdurdod i ymglyfreitha

Mae angen awdurdod penodol gan y llys i gynnal ymglyfreitha ar ran P oni bai bod yr ymglyfreitha arfaethedig yn y Llys Gwarchod mewn perthynas â mater eiddo a materion neu i geisio cyfarwyddyd mewn perthynas â mater lles personol.

Pan fo gan y dirprwy awdurdod penodol i gyflawni tasgau diffiniedig penodol ar ran P, mae ganddo awdurdod i gymryd rhan mewn ymglyfreitha dadleuol hyd at y pwynt o dderbyn y Llythyr Ymateb ond dim pellach. Mae'r dyfarniad yn darparu'r enghreifftiau canlynol o ymglyfreitha dadleuol posibl sy'n gysylltiedig ag awdurdodau penodol priodol:

- a. mae'r awdurdod i osod eiddo yn cwmpasu cymryd camau i ffurfio barn ynghylch a oes sail i droi tenant o eiddo o'r fath allan
- b. mae awdurdod "cyffredinol" i reoli cronfeydd P yn cynnwys cymryd camau i ffurfio barn ynghylch a yw dyled y dywedir ei bod wedi dod i law P yn daladwy yn briodol yn unol ag adran 7 Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- c. mae awdurdod "cyffredinol" i reoli cronfeydd P yn cynnwys camau hyd at ond heb gynnwys cyflwyno llythyr apêl mewn perthynas â phenderfyniad nad yw P yn gymwys i gael cyllid gofal iechyd parhaus
- d. lle mae awdurdod yn cwmpasu camau wrth ystyried ymglyfreitha dadleuol, mae hynny'n cynnwys cael barn y Cwnsler

Ni chaiff dirprwy eiddo a materion gychwyn ymglyfreitha dadleuol sy'n ymwneud â phenderfyniadau lles personol ond gall geisio cyfarwyddiadau gan y Llys Amddiffyn.

Nid yw'r awdurdod cyffredinol a roddir i ddirprwy eiddo a materion yn cynnwys apelio yn erbyn penderfyniad Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal gan fod hwn yn fater lles personol. Gall y dirprwy wneud cais am gyllid gofal iechyd parhaus gan fod hwn yn fater ariannol.

Mewn achosion lle mae angen yr ymglyfreitha brys ar ran P, gall y dirprwy fynd ymlaen mewn risg mewn perthynas â chostau ond gall wneud cais i'r llys am awdurdodiad ôl-weithredol i adennill costau o gronfeydd P. Bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu hystyried fesul achos; nid oes unrhyw warant y bydd awdurdodiad yn cael ei roi.

Bydd angen awdurdod penodol hefyd i ddefnyddio cronfeydd P i ad-dalu trydydd parti sydd wedi'i gyfarwyddo i weithredu ar ran P. Mae hyn yn cynnwys costau a ddaeth i law aelod o deulu P.

Gwrthdaro o ran buddiannau

Pan fo gwrthdaro o ran buddiannau yn codi oherwydd bod y dirprwy yn dymuno cyfarwyddo aelod o'i gwmni ei hun i gyflawni gwaith cyfreithiol ar ran P, gall ofyn am awdurdodiad ymlaen llaw gan y llys i gyflawni'r gwaith dan sylw.

Os nad oes ganddo awdurdod penodol, rhaid iddo, lle mae'n rhesymol ac yn gymesur i wneud hynny, gael tri dyfynbris gan ddarparwyr priodol, y gall un ohonynt fod gan ei gwmni ei hun ac i gyfarwyddo'r darparwr y bydd ei wasanaethau er budd gorau P.

Rhaid i'r dirprwy ofyn am gymeradwyaeth gan y llys os yw'r costau disgwylidig yn fwy na £2,000 ynghyd â TAW.

Achosion lle mae P yn cadw'r gallu i roi cyfarwyddiadau

Os oes gan P y gallu i roi cyfarwyddiadau mewn perthynas â darn penodol o waith, rhaid iddo hefyd fod â'r gallu i gytuno â chostau sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwnnw.

Sefyllfa OPG

Mae gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus, gyda chefnogaeth OPG, ddyletswydd statudol i oruchwylio pob dirprwy a benodir gan y Llys Gwarchod. Pan fyddwn yn gofyn i ddirprwyon adrodd i ni, byddwn yn gofyn iddynt ddangos bod ganddynt yr awdurdod angenrheidiol i gyflawni eu gwaith.

Mae OPG yn disgwyl i unrhyw benderfyniadau a wneir gan ddirprwyon mewn perthynas â Re ACC gael eu hamlinellu yn yr adroddiad blynyddol.

1. Dirprwyon presennol

Mae'r dyfarniad yn ei gwneud yn glir bod disgwyliad parhaus y bydd dirprwyon yn ystyried, yn fanwl, terfynau eu hawdurdod eu hunain ac yn mynd i'r afael ag unrhyw wrthdaro buddiannau posibl. Mae angen awdurdodiad gan y llys ar gyfer yr holl waith parhaus ac yn y dyfodol sy'n dod y tu allan i awdurdod y dirprwy.

Dylai dirprwyon gael tri dyfynbris os ydynt yn dymuno cyfarwyddo aelod o'u tîm eu hunain i wneud gwaith ar ran P. Rhaid iddynt wneud cais i'r llys am awdurdodiad mewn unrhyw achos lle mae'r costau a ragwelir yn fwy na £2'000 ynghyd â TAW. Dylai'r dirprwy wneud penderfyniad cymesur mewn achosion lle byddai cael tri dyfynbris yn costio mwy na'r gwaith arfaethedig. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r dirprwy ddarparu manylion am ei benderfyniad yn yr adroddiad blynyddol. Efallai y bydd rhai achosion lle nad yw'n bosibl cael tri dyfynbris. Yn yr achosion hyn, bydd OPG yn cymryd dull cymesur ac yn ystyried a ddylid cyfeirio'r mater i'r llys.

Nid yw OPG yn rhagweld yr angen i ddirprwyon wneud ceisiadau am awdurdodiad ôl-weithredol mewn unrhyw achosion a gwblhawyd cyn rhyddhau'r dyfarniad, ond bydd hyn yn cael ei ystyried fesul achos i sicrhau bod buddiannau gorau P yn cael eu bodloni.

Sefyllfa OPG yw bod y safbwyntiau a nodir yn Re ACC and Others mewn perthynas â gwrthdaro buddiannau yn ymestyn i unrhyw achos lle mae dirprwy yn ystyried caffael gwasanaethau ar gyfer P a allai gynnwys darpariaeth gan gwmni y dirprwy ei hun ac felly'n wrthdaro buddiannau posibl.

Mae'r dyfarniad yn nodi, mewn materion lles personol, y gallai asiantaethau eraill, fel awdurdodau lleol a'r GIG, nad oes angen awdurdodiad llys arnynt i wneud gwaith brys y tu allan i gwmpas y dirprwy fod mewn sefyllfa well i weithredu. Mae OPG yn disgwyl i ddirprwyon ystyried a allant ofyn i rywun arall ymdrin â'r mater lles personol a chyfeirio'r mater dan sylw at yr asiantaethau hynny.

2. Darpar ddirprwyon

Dylai darpar ddirprwyon ystyried a oes angen posibl i gyfarwyddo rhywun arall i roi cyngor neu gyflawni tasgau cyfreithiol ar ran P ar yr adeg y maent yn gwneud cais i gael eu penodi. Os yw eu cwmni eu hunain yn darparu'r gwasanaeth a'u bod yn dymuno eu cyfarwyddo, dylent gynnwys cais am awdurdod penodol i wneud hynny, yn amodol ar derfyn costau penodol, gyda'u cais cychwynnol. Bydd y llys yn penderfynu a yw hyn er budd gorau P, cyfnod yr awdurdodiad, a lefel y gwariant.

Pan fydd darpar ddirprwy wedi cael awdurdod i gyfarwyddo rhywun arall, ond nid awdurdod penodol i gyfarwyddo eu cwmni eu hunain, rhaid i'r dirprwy gael tri dyfynbris ar wahân gan ddarparwyr priodol, y gall un ohonynt fod gan eu cwmni eu hunain. Dylai'r dirprwy wedyn wneud penderfyniad budd gorau ynghylch pa ddarparwr sy'n diwallu anghenion P orau, ac os ydynt yn dal i ddymuno cyfarwyddo eu cwmni eu hunain, dylai'r dirprwy wneud cais i'r llys am awdurdod penodol os yw'r costau disgwylid yn fwy na £2,000 ynghyd â TAW.

Ymwadiad cyfreithiol

Nid oes unrhyw beth o fewn yr uchod yn gyngor cyfreithiol nac yn arwain at berthynas cyfreithiwr / cleient. Dylid ceisio cyngor cyfreithiol arbenigol mewn perthynas ag amgylchiadau penodol.

Mae cynnwys y wefan hon at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig. Er ein bod yn ymdrechu i sicrhau bod yr wybodaeth ar y wefan hon yn gywir, ni roddir unrhyw warant, yn benodol nac yn ymhlyg, ynghylch ei chywirdeb ac nid ydym yn derbyn unrhyw atebolrwydd am gangymeriad neu hepgoriad.

Ni fyddwn yn atebol am unrhyw ddifrod (gan gynnwys, heb gyfyngiad, difrod am golli busnes neu golli elw) sy'n deillio o gontract, camwedd neu fel arall o ddefnyddio'r wefan hon neu unrhyw ddeunydd a gynhwysir ynddi, neu o unrhyw gamau neu benderfyniad a gymerwyd o ganlyniad i ddefnyddio'r wefan hon neu unrhyw ddeunydd o'r fath.

Mae'n bosibl bod peth o'r deunydd ar y wefan hon wedi'i baratoi beth amser yn ôl. Cysylltwch â ni os oes angen datganiad cynhwysfawr a chyfredol o'r gyfraith berthnasol arnoch.

Mae'r datganiad hwn yn nodi polisi OPG mewn perthynas â'r camau sy'n ofynnol gan ddirprwy os ydynt am weithredu y tu hwnt i awdurdod cyffredinol y gorchymyn sy'n eu penodi ac yn mynd i'r afael â materion gwrthdaro buddiannau. Disgwylir i bob dirprwy a benodwyd gan y llys gydymffurfio â'r safbwyntiau a nodir yn y canllawiau hyn, a chymerir camau i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio, a all gynnwys achosion llys.

Am gyngor pellach:

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Ffôn 0300 456 0300 www.gov.uk/opg